

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb
a Llywodraeth Leol

Aflonyddu ar sail anabledd yng Nghymru

Rhagfyr 2011



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Annette Millett
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8618
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: CELG.committee@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb
a Llywodraeth Leol

Aflonyddu ar sail anabledd yng Nghymru

Rhagfyr 2011



Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011 gyda chylch gwaith i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion gwariant, gweinyddu a pholisi sy'n cynnwys: diwylliant, ieithoedd, cymunedau a threftadaeth Cymru, gan gynnwys chwaraeon a'r celfyddydau; llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys materion tai; a chyfleoedd cyfartal i bawb.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor

Ann Jones (Cadeirydd)

Peter Black

Janet Finch-Saunders

Mike Hedges

Mark Isherwood

Bethan Jenkins

Gwyn R Price

Ken Skates

Rhodri Glyn Thomas

Joyce Watson

Cynnwys

| | |
|--|-----------|
| Argymhellion y Pwyllgor..... | 5 |
| Cyflwyniad..... | 7 |
| 1. Arweiniad a phartneriaethau..... | 9 |
| Arweiniad | 9 |
| Gweithio mewn partneriaeth..... | 11 |
| Cynadledau Asesu Risg Aml-asiantaeth..... | 14 |
| Ysgolion | 14 |
| 2. Dyletswyddau cydraddoddeb..... | 17 |
| 3. Diogelu ar sail hawliau | 20 |
| Y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol..... | 20 |
| 4. Cynyddu'r achosion o adrodd | 22 |
| Rhesymau dros beidio ag adrodd | 22 |
| Ymyrraeth gynnar | 24 |
| Adrodd gan drydydd parti | 25 |
| Adnabod aflonyddu..... | 27 |
| Rhannu data | 27 |
| 5. Newid agweddau diwylliannol at bobl anabl..... | 30 |
| Codi ymwybyddiaeth | 30 |
| Yr angen am waith ymchwil..... | 32 |
| Tystion..... | 35 |

Argymhellion y Pwyllgor

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno fframwaith aflonyddu ar sail anabledd, gan ddwyn ynghyd yr holl waith presennol sy'n digwydd yng Nghymru a gosod cyfeiriad strategol. Dylid datblygu hyn gan ddefnyddio'r Grŵp Gweithredu ar Droseddau Casineb Anabledd fel grŵp llywio.

(Tudalen 16)

Argymhelliad 2: Dylai'r cynllun hwn nodi atebolrwydd ar draws portffolios Gweinidogion ac annog gweithio mewn partneriaethau rhwng adrannau'r Llywodraeth, awdurdodau lleol, awdurdodau ieched, sefydliadau gwirfoddol ac asiantaethau perthnasol eraill fel yr heddlu.

(Tudalen 16)

Argymhelliad 3: Dylai'r fframwaith gynnwys darpariaeth ar gyfer hyfforddi staff rheng flaen mewn awdurdodau cyhoeddus.

(Tudalen 16)

Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru dreialu'r defnydd o gynadleddau asesu risg aml-asiantaeth ar gyfer achosion o aflonyddu ar sail anabledd, gan ddefnyddio'r model o gam-drin domestig fel arfer da.

(Tudalen 16)

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru fonitro faint o awdurdodau cyhoeddus sydd wedi mabwysiadu aflonyddu ar sail anabledd fel amcan cydraddoldeb o dan y dyletswyddau cydraddoldeb penodol. Dylai'r amcanion hyn gael eu gwerthuso yn ôl yr hyn a gyflawnir a dylid rhannu arfer da.

(Tudalen 19)

Argymhelliad 6: Dylai'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros gydraddoldeb drafod gyda'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol sut y bydd hawliau dynol yn cael eu cynnwys yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol arfaethedig, a rhoi nodyn i'r Pwyllgor am ganlyniad y cyfarfod hwnnw.

(Tudalen 21)

Argymhelliad 7: Dylai fframwaith Llywodraeth Cymru safoni a chydlynu canolfannau adrodd trydydd parti er mwyn sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth a bod canolfannau ar gael ledled Cymru.

(Tudalen 29)

Argymhelliad 8: Dylai'r fframwaith annog y defnydd o adnoddau presennol i godi ymwybyddiaeth o aflonyddu ar sail anabledd ymysg pobl anabl.

(Tudalen 29)

Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ac asiantaethau perthnasol ar rannu data ac, yn benodol, ar sut y gall

awdurdodau adnabod patrymau o aflonyddu ar lefel is cyn i'r achosion
ddatblygu'n droseddau casineb. (Tudalen 29)

Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys amcan tymor hir yn y
Cynllun Cydraddoldeb Sengl newydd o 2012 i newid agweddau diwylliannol
at bobl anabl yng Nghymru. (Tudalen 34)

Cyflwyniad

1. Cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ei adroddiad ar aflonyddu ar sail anabledd ym mis Medi 2011, a phenderfynodd y Pwyllgor gynnal ymchwiliad byr i edrych ar sut y gallai Llywodraeth Cymru gyfrannu at roi argymhellion yr adroddiad ar waith.

Cefndir – y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, “O’r golwg yng ngolwg pawb”

2. Cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliadu Dynol ei adroddiad, “O’r golwg yng ngolwg pawb”, ym mis Medi 2011. Er bod yr ymchwiliad yn berthnasol i Loegr, yr Alban a Chymru, cynhaliodd y Comisiwn waith ymchwil trwyadl yng Nghymru, a chyhoeddodd grynodedb i Gymru a oedd yn mynd i’r afael â phryderon sy’n benodol i Gymru.

3. Roedd adroddiad y Comisiwn wedi’i seilio ar dystiolaeth a gasglwyd ledled Cymru, drwy wefan gyfrinachol, drwy’r post, ar e-bost ac wyneb yn wyneb. Cafwyd tystiolaeth gan unigolion, awdurdodau cyhoeddus, sefydliadau ar gyfer pobl anabl, y sector gwirfoddol ac eraill. Cynhaliodd y Comisiwn ddigwyddiadau grwpiau trafod gydag unigolion a chynrychiolwyr awdurdodau cyhoeddus, sefydliadau ar gyfer pobl anabl a’r sector gwirfoddol.

4. Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, gwnaeth y Comisiwn argymhellion i Gymru mewn pedwar prif faes, sef:

- meithrin arweinyddiaeth a phartneriaethau;
- defnyddio’r dyletswyddau cydraddoldeb newydd;
- cyflwyno dulliau diogelu ar sail hawliau; a
- chynyddu’r achosion o adrodd.

Cylch gorchwyl ymchwiliad y Pwyllgor

5. Edrychodd y Pwyllgor ar ganfyddiadau adroddiad y Comisiwn ac ymchwiliodd hefyd i:

- sut y gall awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru wella eu dulliau o fynd i’r afael ag aflonyddu ar sail anabledd, yn enwedig awdurdodau tai, addysg, iechyd a thrafnidiaeth;

¹ <http://www.equalityhumanrights.com/wales/projects/hidden-in-plain-sight/>

- effeithlonrwydd dulliau gweithio aml-asiantaeth, gan gynnwys rhannu gwybodaeth a chanllawiau arferion da; a
- y potensial i awdurdodau cyhoeddus gynnwys camau gweithredu i leihau aflonyddu ar sail anabledd yn eu strategaethau cydraddoldeb, fel sy'n ofynnol yn ôl y dyletswyddau cydraddoldeb penodol newydd yng Nghymru.

Y diffiniad o 'aflonyddu ar sail anabledd'

6. At ddibenion yr ymchwiliad hwn, defnyddiodd y Pwyllgor y diffiniad o aflonyddu ar sail anabledd a ddefnyddiodd y Comisiwn yn ei adroddiad, sef unrhyw ymddygiad di-angen, dilornus neu gamddefnyddiol yn erbyn pobl anabl, p'un a yw'n ddigwyddiad troseddol ai peidio. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys aflonyddu ar ffrindiau a theuluoedd pobl anabl ac ar bobl y credir eu bod yn anabl.

Dulliau

7. Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau llafar ar 21 a 29 Medi, 2011. Yn ystod y sesiynau hynny, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol;
- Mencap Cymru;
- Prosiect Ymchwil Trosedd Casineb Cymru Gyfan;
- Anabledd Cymru;
- Anabledd Dysgu Cymru;
- Cymru Ddiogelach; a
- Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

8. Oherwydd bod yr ymchwiliad wedi canolbwyntio ar gasgliadau ymchwiliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ni chyhoeddodd y Pwyllgor alwad am dystiolaeth ysgrifenedig, gan ein bod yn teimlo y byddai hyn wedi ailadrodd y gwaith yr oedd y Comisiwn eisoes wedi ei wneud.

9. Gellir dod o hyd i agendâu, papurau a'r trawsgrifiadau ar gyfer y ddau gyfarfod ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru [yma](http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=1519&Opt=0).²

² <http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=1519&Opt=0>

1. Arweiniad a phartneriaethau

Cyflwyniad

10. Un o brif themâu adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar Gymru oedd mai'r ffordd fwyaf effeithiol o gael gwared ar aflonyddu ar sail anabledd yw drwy weithio mewn partneriaethau sy'n cynnwys awdurdodau cyhoeddus, y sector gwirfoddol, sefydliadau ar gyfer pobl anabl ac unigolion. Mae hyn yn cynnwys rhannu arfer da a gwybodaeth.

11. Yn ei adroddiad, gwnaeth y Comisiwn yr argymhelliad a ganlyn yn y maes hwn:

“Mae rhaid i arweinwyr ddangos penderfyniad i gael gwared ag aflonyddu. Dylid annog partneriaethau sy'n atal ac ymateb i aflonyddu ac sy'n rhannu arfer effeithiol gan gynnwys awdurdodau cyhoeddus yn trefnu cynllun peilot Cynadleddau Asesu Risg Aml-asiantaeth”.

Arweiniad

12. Mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, pwysleisiodd y Comisiwn y pwysigrwydd o ddangos arweiniad a phenderfyniad er mwyn ysgogi newid wrth fynd i'r afael â'r mater. Cred y Comisiwn y dylid ystyried y mater ar lefel strategol ac y dylid ei integreiddio yn y broses o ddatblygu polisiau:

“The Government has a responsibility to look at how it [disability-related harassment] can be built into its programmes and initiatives. For example, the efficiency and innovation board has a work stream on promoting new models of service delivery that can shift interventions from cure to prevention, which is exactly the territory that we are in with this disability harassment inquiry. So, we would be looking to Government to identify the mechanisms by which it can address disability harassment. As far as public authorities in Wales are concerned, leadership and advice should be a priority for them as well.”³

13. Nododd y Comisiwn y dylai gwahanol asiantaethau a sefydliadau fabwysiadu rôl arweiniol:

³ Tystiolaeth lafar, 21.9.2011

“[...] there has been insufficient determination at the highest levels to identify and resolve this problem, and it has not been a priority. The concept of leadership meshes very well with the way that things are done in Wales—the emphasis on partnership working, with different authorities such as the police, health, education and so on working together. We see that especially in the multi-agency risk assessment conferences. As a committee, you are leaders in your own right, and can take this issue up, trying to ensure that it is prioritised. Also, as scrutinisers, you have the opportunity to hold the Government and public bodies to account.”⁴

14. Mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, dywedodd Mr Williams o Cymru Ddiogelach:

“[...] the Welsh Government needs to take the lead and to require local authorities to [...] run awareness sessions and to run media campaigns and so on, to get this out into the public domain so that more people are aware of it.”⁵

15. Cyfeiriodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol at ysgolion, tai cymdeithasol a thrafnidiaeth fel meysydd polisi penodol y gallai Llywodraeth Cymru ddangos arweiniad yn eu cylch:

“[...] we are interested in a dialogue with the Government with regard to the guidance that is issued to a range of key agencies. In terms of changing attitudes, for example, schools are absolutely critical. Schools, for example, could discourage bullying, integrate disabled pupils more effectively, and tackle the bullying by school pupils on public transport and outside the school gates. In terms of social housing, the design of social housing can be critical and the sharing of data between social housing and other agencies is absolutely essential if incidents are to be nipped in the bud and prevented from escalating. Escalation is a real danger if social housing providers do not talk to social services or the police, for example. In terms of transport, we are interested particularly in the guidance that the Welsh Government issues around transport, because it is possible to build into the contracts for public transport that staff, for example, should be trained in intervention if there are incidents on the buses.”⁶

⁴ Tystiolaeth lafar, 21.9.2011

⁵ Tystiolaeth lafar, 29.9.2011

⁶ Tystiolaeth lafar, 21.9.2011

16. Credai tystion y gallai Llywodraeth Cymru fabwysiadu rôl arweiniol wrth ddwyn ynghyd yr asiantaethau perthnasol ac annog rhagor o weithio mewn partneriaeth. Dywedodd Ms Davies o Anabledd Cymru:

“[...] this is where the Welsh Government should step in to try to draw this together and look at how there could be a more uniform approach so that, wherever you live in Wales, you would know where to report, how to report and what was going to happen. It would mean that you would get support and that agencies would work together to tackle this and that there would be some form of redress. We are still some way from getting to that point.”⁷

17. Soniwyd mai nid Llywodraeth Cymru yn unig ddylai fabwysiadu rôl arweiniol ar lefel strategol; dylai awdurdodau lleol hefyd fabwysiadu'r rôl honno. Dywedodd Ms Alleyne o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ei bod yn bwysig i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru er mwyn mynd i'r afael â'r mater yn effeithiol:

“[...] local authorities have a community leadership role and a lead responsibility in establishing a number of fora and partnerships where disability-related hate crime could and should be addressed. The examples that we highlighted in our evidence are the community safety partnership, the community cohesion strategies and the disability equality schemes that will be in place until next April, when authorities will be required to develop their strategic equality plans. Not only do local authorities have a leadership role around the strategies and partnerships that are in place, but there is also a key role to play in the services that they provide or commission. These, in turn, have a key role to play in challenging disability-related harassment, supporting the victims and dealing with the perpetrators. There is an opportunity for local authorities to undertake that leadership role.”⁸

Gweithio mewn partneriaeth

18. Yn ei adroddiad, pwysleisiodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol mai'r ffordd fwyaf effeithiol o gael gwared ar aflonyddu ar sail anabledd yw drwy weithio mewn partneriaethau sy'n cynnwys awdurdodau cyhoeddus, y sector gwirfoddol, sefydliadau ar gyfer pobl anabl ac unigolion.

⁷ Tystiolaeth lafar, 29.9.2011

⁸ *ibid*

19. Dywedodd y Comisiwn wrthym, er mai ond megis dechrau y mae'r gwaith o sefydlu partneriaethau, bod gwaith da eisoes yn cael ei wneud:

"[...] there is a will to build partnerships that can make a difference in Wales. One example of that is the partnership between Torfaen People First and Gwent Police. Torfaen People First has trained police officers in recognising disability harassment and set up 31 reporting centres across Gwent in places where people with learning disabilities would normally go during the day. That has resulted in an increase in reporting. So, there are initiatives there that are in their infancy. The Wales Audit Office gave evidence to us and talked about its good practice exchange and the possibility of deploying that around this issue. We are keen to pick that up and pursue it."⁹

20. Awgrymodd Jim Crowe o Anabledd Dysgu Cymru fod diffyg cysondeb ymysg asiantaethau o'r ddealltwriaeth o beth yn union yw aflonyddu yn golygu yn aml bod diffyg cydweithio:

"Even though some individuals may have several agencies working with them, such as housing and social services, and they may have reported issues to the police, there is a lack of a joined-up approach and data sharing. Given that there is not a shared understanding of what disability-related harassment is, it is not recognised and there are no procedures in place for officers to follow when an incident is reported."¹⁰

21. Soniodd nifer o dystion wrth y Pwyllgor am enghreifftiau o waith da mewn partneriaeth a oedd yn digwydd gyda heddluoedd Cymru. Dywedodd y Comisiwn:

"There is also a disability hate crime action group in Wales, which is a partnership between the four police forces and disabled people's organisations. It has been developing an action plan on increased reporting and raising awareness. The initiatives are there and the good practice is developing, but we are still at early days."¹¹

22. Cyfeiriodd Ms French o Anabledd Cymru hefyd at y grŵp gweithredu ar droseddau casineb fel enghraifft o weithio da mewn partneriaeth yn y sector gwirfoddol:

⁹ Tystiolaeth lafar, 21.9.2011

¹⁰ Tystiolaeth lafar, 29.9.2011

¹¹ Tystiolaeth lafar, 21.9.2011

“[...] it is particularly important to highlight the benefits of particular expertise on disability issues in supporting disabled people to report incidences of harassment and to progress cases in Wales. One example is where Disability Wales, Safer Wales, Learning Disability Wales and others came together to create the Disability Hate Crime Action Group Cymru, which is a network of organisations. We meet quarterly and we take it in turns to host the meetings. It is a way we can exchange information on how we are helping the reporting agenda and provide information to our membership to support disabled people in Wales to raise issues at the time.”¹²

23. Dywedodd Mr. Crocker o Mencap Cymru wrth y Pwyllgor fod gweithio mewn partneriaeth yn gwella:

“What is encouraging is that there are now lots of opportunities for the police and the voluntary sector to work collaboratively. We have a project in Carmarthenshire that we are submitting to the Big Lottery for funding, working with Dyfed-Powys Police. It is for developing the role of a hate crime officer with a learning disability in Carmarthenshire, who would go into day centres to talk to people. As I mentioned in my report, I have met a number of senior officers now, and they seem very committed to tackling hate crime. It is just a case of ensuring that we can support them in their communities by developing projects they can get involved in.”¹³

24. Amlinellodd Jim Crowe o Anabledd Dysgu Cymru y manteision o weithio ar y cyd, gan ddweud wrth y Pwyllgor:

“The four police forces are working more collaboratively and there are certain areas in which consistency of approach would certainly be beneficial for disabled people. Knowing that concerns would be addressed in the same way in each police force would be helpful. Organisations such as Disability Wales, the commission and ourselves could then issue helpful easy-to-read information to disabled people to give them advice about how things will work wherever they are in Wales.”¹⁴

¹² Tystiolaeth lafar, 29.9.2011

¹³ Tystiolaeth lafar, 21.9.2011

¹⁴ Tystiolaeth lafar, 29.9.2011

Cynadleddau Asesu Risg Aml-asiantaeth

25. Cyfeiriodd adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol at y defnydd o gynadleddau asesu risg aml-asiantaeth, a gaiff eu defnyddio yng Nghymru ar hyn o bryd ar gyfer achosion o gam-drin domestig. Esboniwyd bod asiantaethau lleol yn dod at ei gilydd mewn cynhadledd i drafod dioddefwyr sydd mewn perygl mawr o gam-drin domestig sy'n byw yn yr ardal leol. Nod y cynadleddau hyn yw lleihau'r perygl o niwed difrifol i ddioddefwyr posibl, neu'r perygl iddynt gael eu lladd, a gwella iechyd, diogelwch a lles y rhai sydd mewn perygl.

26. Dywedodd y Comisiwn:

“We have searched for a partnership approach that can make a practical, real difference on the ground. We have looked at what we have learnt from these multi-agency risk assessment conferences that have been deployed on domestic abuse. The evidence shows that they have been effective in tackling domestic abuse. There seems to be a practical on-the-ground way for us to make a difference in dealing with disability harassment. We are looking for local authorities to pick that up and say that they will pilot it and see what happens. In terms of on-the-ground partnerships, it would be a big step forward if local authorities took a lead in initiating those multi-agency risk assessment conference mechanisms for addressing disability harassment.”¹⁵

27. Ategodd nifer o dystion y farn y gallai'r cynadleddau fod yn ffordd effeithiol o annog gweithio mewn partneriaethau ac y dylid treialu eu defnydd ym maes aflonyddu ar sail anabledd. Nododd Cymru Ddiogelach yn ei dystiolaeth ysgrifenedig y tebygrwydd rhwng cam-drin domestig a throseddau casineb, ac awgrymodd y byddai sefydlu grŵp strategol i Gymru gyfan i roi ar waith brosesau'r cynadleddau ar gyfer achosion uchel eu risg yn ffordd effeithiol o fynd i'r afael â'r mater.

Ysgolion

28. Yn ei adroddiad, amlinellodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol sut y gall ysgolion chwarae rôl ganolog i atal aflonyddu. Fel engrhaifft, cyfeiriodd at ganllawiau Llywodraeth Cymru ar fwlio, sy'n cynnwys bwlio disgyblion anabl.

¹⁵ Tystiolaeth lafar, 21.9.2011

“In terms of schools, it is always valuable to bring people from different backgrounds together, whether it is through partnerships in schools, or however it is done. There is always a challenge with schools thinking that everything is landed on them, so although it is important and valuable for schools to do that, the voluntary sector and all of us, as citizens more widely, have a responsibility to do what we can to bring people together from different backgrounds.”¹⁶

29. Nododd Cymru Ddiogelach ei fod wedi cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth am droseddau casineb mewn ysgolion. Diben y sesiynau oedd codi ymwybyddiaeth a thrafod y rhwystrau i adrodd am droseddau casineb. Roedd Cymru Ddiogelach wedi cynnal 37 o sesiynau i gyfanswm o 596 o bobl. Nododd ei werthusiad o effeithiolrwydd y sesiynau fod:

- 87 y cant o ddisgyblion yn teimlo bod eu dealltwriaeth o beth yw trosedd casineb wedi gwella;
- 80 y cant yn teimlo bod eu dealltwriaeth o'r rhwystrau i adrodd am droseddau casineb wedi gwella drwy fynychu'r sesiynau; a bod
- 82 y cant yn credu bod y sesiwn wedi bod yn ddefnyddiol ar y cyfan.

Barn y pwyllgor

30. Rydym yn ategu argymhelliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol mewn perthynas ag arweiniad a gweithio mewn partneriaethau. Mae'n amlwg bod angen arweiniad cryf gan Lywodraeth Cymru, ond rydym yn cydnabod barn y Comisiwn na fu hon yn flaenoriaeth uchel yn y gorffennol.

31. Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi mynd i'r afael â throseddau casineb yn y gorffennol o dan y Strategaeth Cydlyniant Cymunedol, sy'n dod i ben yn 2012. Nid oes gan y strategaeth hon unrhyw gamau gweithredu nac amcanion penodol ar droseddau casineb, ac rydym o'r farn y dylid rhoi blaenoriaeth i aflonyddu ar sail anabledd. Rydym hefyd yn nodi bod Cynllun Cydraddoldeb Sengl Llywodraeth Cymru yn dod i ben yn 2012. Rydym yn gweld hwn yn gyfle i Lywodraeth Cymru ymroi i fynd i'r afael â'r mater.

32. Rydym yn cydnabod bod gan eraill rôl arweiniol, gan gynnwys y Pwyllgor hwn, ac rydym felly yn ymroi i barhau i adolygu'r cynnydd sy'n digwydd wrth fynd i'r afael ag aflonyddu ar sail anabledd.

¹⁶ Tystiolaeth lafar, 21.9.2011

33. O ran gweithio mewn partneriaeth, roedd y dystiolaeth a gawsom yn awgrymu bod gwaith da yn cael ei wneud ond mai ond megis dechrau oedd y gwaith hwnnw a bod llawer mwy i'w wneud o hyd. Rydym yn cytuno y gallai treialu'r defnydd o gynadleddau asesu risg aml-asiantaeth ar gyfer achosion o aflonyddu ar sail anabledd fod yn ffordd effeithiol o sicrhau gweithio mewn partneriaeth gwell.

34. Rydym o'r farn bod rhannu data rhwng gwahanol asiantaethau yn hanfodol i sicrhau ymyrraeth gynnar ac y byddai'n annog Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i chwarae rhan fwy rhagweithiol i sicrhau bod protocolau rhannu data mewn grym, eu bod yn cael eu defnyddio a'u bod yn cael effaith gadarnhaol.

35. Rydym yn nodi bod codi ymwybyddiaeth mewn ysgolion yn gallu cyfrannu'n sylweddol at ymyrraeth gynnar. Rydym hefyd yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau gwrth-fwlio newydd i ysgolion.¹⁷

Argymhellion

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno fframwaith aflonyddu ar sail anabledd, gan ddwyn ynghyd yr holl waith presennol sy'n digwydd yng Nghymru a gosod cyfeiriad strategol. Dylid datblygu hyn gan ddefnyddio'r Grŵp Gweithredu ar Droseddau Casineb Anabledd fel grŵp llywio.

Argymhelliad 2: Dylai'r cynllun hwn nodi atebolrwydd ar draws portffolios Gweinidogion ac annog gweithio mewn partneriaethau rhwng adrannau'r Llywodraeth, awdurdodau lleol, awdurdodau ieuchyd, sefydliadau gwirfoddol ac asiantaethau perthnasol eraill fel yr heddlu.

Argymhelliad 3: Dylai'r fframwaith gynnwys darpariaeth ar gyfer hyfforddi staff rheng flaen mewn awdurdodau cyhoeddus.

Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru dreialu'r defnydd o gynadleddau asesu risg aml-asiantaeth ar gyfer achosion o aflonyddu ar sail anabledd, gan ddefnyddio'r model o gam-drin domestig fel arfer da.

¹⁷ Llywodraeth Cymru, [Parchu eraill: canllawiau gwrth-fwlio 2011](#) [fel ar 11/11/11]

2. Dyletswyddau cydraddoleb

Cyflwyniad

36. Mae'r ail o'r pedwar argymhelliad yn adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cyfeirio at ddyletswyddau yn y sector cyhoeddus, ac yn datgan, er mwyn sbarduno newid yn y maes hwn, y dylai awdurdodau cyhoeddus ddefnyddio'r dyletswyddau cydraddoldeb hynny, ac yn arbennig y dyletswyddau penodol i Gymru, i fynd i'r afael ag aflonyddu ar sail anabledd.

37. Mae'r ddyletswydd gyffredinol ar gydraddoldeb yn y sector cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau ledled Prydain gael gwared ar wahaniaethu, annog cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda. Mae'r dyletswyddau penodol ar gydraddoldeb i Gymru yn nodi'r camau y dylai awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru eu cymryd i ddangos eu bod yn rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd gyffredinol.

38. Mae'r dyletswyddau penodol i Gymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus lunio amcanion a chynlluniau cydraddoldeb a chasglu gwybodaeth am gydraddoldeb (ymysg dyletswyddau eraill).

39. Mae adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn datgan y dylid ymgynghori â phobl anabl wrth ddatblygu'r amcanion cydraddoldeb, wrth gasglu data ac wrth ddatblygu'r cynlluniau gweithredu. Yn y trafodaethau a gynhaliwyd yn ystod ymchwiliad y Comisiwn, nodwyd yr angen i newid agweddau diwylliannol at bobl anabl fel prif flaenoriaeth i atal aflonyddu. Gwelwyd y dyletswyddau penodol ar gydraddoldeb fel cyfle i ymwneud ag awdurdodau cyhoeddus wrth ddatblygu ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth.

Dyletswyddau cydraddoldeb

40. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol:

“[...] the Equality Act 2010 introduced a positive duty on public authorities to take action, and the specific duties have been written by the Welsh Government as far as the devolved public sector is concerned. Those are in the process of being introduced now, and will fully kick in next April. It is a good opportunity to focus on the deepest inequalities, and this is one of them. The report that we published earlier in the year, ‘How Fair is Wales?’, identified seven

major equality and discrimination problems in Wales, and hate crime is one of those. Disabled people will tell you that the top issue is low levels of knowledge, so the equality duties can be used to help raise awareness to eliminate crime. It can also be used to focus attention on training front-line staff, because it is not only members of the public who lack the knowledge about this issue and what to do, but front-line public servants as well. We will be monitoring the impact of the equality duty, but there could be an opportunity for you as a committee to scrutinise the effectiveness of the equality duty, and the specific duties in tackling hate crime. That could be done by scrutinising not only Ministers but also the WLGA.”¹⁸

41. Soniodd y Comisiwn wrth y Pwyllgor am y pwysigrwydd o ymgynghori â phobl anabl ar y dyletswyddau cydraddoldeb penodol:

“The requirement to involve disabled people in solutions is a very clear reason why the specific equality duty is important here, because there is an absolute requirement that, in setting their objectives, public authorities involve disabled people. They are going to be required to set at least one objective for each strand of equality, meaning that there will be very strong arguments that eliminating and tackling disability harassment should be considered by public authorities as something that should be set under the disability duty. It is not just a case of having a chat but of actual involvement in setting the objective and working out how it is to be delivered. It is hoped that that will be one of the major benefits of that new duty.”¹⁹

42. Dywedodd Ms Alleyne o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

“One thing that we can contribute is that, with the new equality legislation and the new strategic equality plans, the fact that there is a need to focus on hate crime and harassment is something that has been picked up by the majority of authorities. These plans are strategic with a whole authority. Ways of taking those forward will be discussed within the whole authority, bringing the different departments together, asking how they can contribute to the fulfilment of the objectives. In relation to an objective on tackling hate crime, in most local authorities, we would certainly be talking about all the local authority departments having the discussion on that objective. Also, in north Wales, you have the wider partnership

¹⁸ Tystiolaeth lafar, 21.9.2011

¹⁹ *ibid*

with a shared objective. In south-west Wales, they are discussing the possibilities of shared objectives—whether that will be Swansea, Neath Port Talbot and South Wales Police and whether it will be expanded to include Dyfed-Powys Police and Carmarthen. It is all at an early stage. It provides a forum in which people are going to begin to discuss these things. In a way, the finger is going to be pointed at people and they will be asked, ‘How can you contribute to this agenda?’ So, that should help the flow of information.”²⁰

Barn y Pwyllgor

43. Rydym yn cydnabod bod cyflwyno dyletswyddau cydraddoldeb penodol yn gyfle i roi blaenoriaeth uwch i’r mater o aflonyddu ar sail anabledd mewn llawer o awdurdodau lleol. Byddant hefyd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth gwell.

44. Byddwn yn parhau i adolygu effaith y dyletswyddau cydraddoldeb, a phryd y rhoddir hwy ar waith, er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol.

Argymhelliad

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru fonitro faint o awdurdodau cyhoeddus sydd wedi mabwysiadu aflonyddu ar sail anabledd fel amcan cydraddoldeb o dan y dyletswyddau cydraddoldeb penodol. Dylai’r amcanion hyn gael eu gwerthuso yn ôl yr hyn a gyflawnir a dylid rhannu arfer da.

²⁰ Tystiolaeth lafar, 29.9.2011

3. Diogelu ar sail hawliau

Cyflwyniad

45. Yn ei adroddiad, mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull diogelu ar sail hawliau. Esboniodd y Comisiwn fod gan awdurdodau lleol gyfrifoldebau penodol i arwain ar ddiogelu oedolion a phlant, a'r rhai sy'n agored i niwed. Mae diogleu'n golygu cadw'n ddiogel unigolion a allai fod yn agored i niwed, gan gynnwys ymyrryd mewn sefyllfa benodol ac atal sefyllfa rhag gwaethygu.

46. Ym mis Chwefror 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu*,²¹ sy'n amlinellu ei chynlluniau i adnewyddu gwasanaethau a gofal cymdeithasol am y degawd nesaf. Mae'r papur hwn yn argymhell y dylid sefydlu Bwrdd Diogelu Cenedlaethol ar gyfer Oedolion a Phlant er mwyn cynnig arweiniad cenedlaethol i bob rhanddeiliad, datblygu a hyrwyddo safonau o safon uchel, a bod yn ganolbwynt ar gyfer dysgu o brofiad. Rhoddwyd rhagor o wybodaeth am y bwrdd gan y Dirprwy Weinidog ym mis Hydref 2011.²² Mae Grŵp Ymgynghorol ar Ddiogelu Oedolion a Fforwm Diogelu Plant eisoes wedi'u sefydlu i adolygu'r trefniadau presennol.

Y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol

47. Mae adroddiad y Comisiwn Cydraddoleb a Hawliau Dynol yn datgan bod y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol arfaethedig yn gyfle pwysig i gyflwyno system ddiogelu effeithiol a fydd hefyd yn diogelu hawliau dynol pobl anabl. Dywedodd y Comisiwn wrth y Pwyllgor:

“It is envisaged that the Bill will include provision for a safeguarding board, which we would welcome. If a safeguarding board is established, there is a specific opportunity to build human rights principles into the way that safeguarding is introduced, which in itself could be a valuable tool for protecting people from harassment.”²³

48. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Anabledd Cymru yr hyn a ganlyn:

²¹ Llywodraeth Cymru, [Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu](#), Chwefror 2011 [fel ar 15 Medi 2011]

